SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd




# Stopio a Chwilio

Mae pwerau stopio a chwilio yn galluogi'r heddlu i drechu troseddau stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal troseddau mwy difrifol rhag digwydd. Gall y pŵer i Stopio a Chwilio helpu'r heddlu i ddatrys troseddau a gwneud ein cymunedau yn ddiogelach.

***Beth yw 'stopio'?***

'Stopio' (neu stopio a rhoi cyfrif) yw pan fydd Swyddog Heddlu neu Swyddog Cefnogi Cymuned yn eich stopio ac yn gofyn i chi roi cyfrif amdanoch eich hun. Hynny ydi, os ydynt yn gofyn i chi:

• beth ydych yn ei wneud;

• pam ydych yn rhywle neu ble'r ydych yn mynd; neu

• beth ydych yn ei gario.

*(Noder, mae'n rhaid i swyddog cefnogi cymuned yr heddlu fod mewn lifrai er mwyn eich chwilio ond does dim rhaid i swyddog heddlu)*

Nid oes rhaid i'r swyddog wneud cofnod o'r cyfarfod hwn.

Nid yw pob tro y bydd swyddog heddlu neu swyddog cefnogi cymuned yr heddlu yn siarad â chi yn cyfri fel stop. Er enghraifft, os yw'r swyddog

• yn chwilio am dystion;

• yn gofyn i chi am wybodaeth gyffredinol am ddigwyddiad; neu

• yn rhoi cyfarwyddiadau i chi.

***Beth yw 'stopio a chwilio'?***

Gall swyddog eich stopio a siarad â chi unrhyw dro. Ond ni ddylent eich chwilio oni bai eu bod yn amau eich bod yn cario:

• cyffuriau;
• arfau;
• eiddo sydd wedi'i ddwyn, neu
• offer y gellid ei ddefnyddio i gyflawni trosedd.

***Pam fi?***

Os byddwch yn cael eich stopio neu eich chwilio, **nid yw'n** golygu eich bod wedi gwneud rhywbeth o'i le. Mae'n rhaid bod gan swyddog heddlu **reswm da** dros eich stopio a'ch chwilio ac fe ddylai eich hysbysu o'r rheswm.

Ni ddylech gael eich stopio a'ch chwilio dim ond oherwydd eich oed, hil, cefndir ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu ffydd, y ffordd yr ydych yn edrych, yr iaith yr ydych yn ei siarad neu oherwydd eich bod wedi cyflawni trosedd yn y gorffennol.

Os ydych o'r farn mai dyma sydd wedi digwydd, gallwch wneud cwyn, gweler yr adran **Sut allaf gwyno?** isod.

***Lle gallaf gael fy stopio a'm chwilio?***

• mewn man cyhoeddus; neu
• unrhyw le - os yw'r heddlu o'r farn eich bod wedi cyflawni trosedd difrifol.

Os oes gan yr heddlu reswm dros gredu y gallai trais difrifol ddigwydd, gallant chwilio pawb sydd yn yr ardal gyfagos am arfau e.e. wrth ymyl cae pêl-droed - heb iddynt fod â rheswm da dros chwilio pob unigolyn.

***Beth sy'n digwydd?***

Fel arfer, mae'n rhaid i'r swyddog heddlu ddweud wrthych:

• bod rhaid i chi aros i gael eich chwilio;
• y gyfraith maent yn ei defnyddio a'ch hawliau;
• eu henw;
• yr orsaf maent yn gweithio ynddi,

• pam eu bod wedi'ch dewis chi;
• beth maent yn chwilio amdano, a'ch
• hawl i gael cofnod o'r chwiliad ar unwaith.

Os nad yw'r swyddog mewn lifrai, mae'n rhaid iddynt ddangos eu cerdyn adnabod i chi.

Os ydych mewn lle cyhoeddus, dim ond eich côt neu eich siaced a'ch menig sydd gan swyddog yr hawl i ofyn i chi eu tynnu.

Ni all swyddog ofyn i chi dynnu mwy o ddillad na hyn nac unrhyw beth yr ydych yn ei wisgo am resymau crefyddol megis sgarff wyneb neu dwrban, oni bai eu bod yn mynd â chi i rywle preifat. **Nid yw hyn yn golygu eich bod yn cael eich arestio**. Gallwch wneud cais i gael eich chwilio gan swyddog o'r un rhyw a chi.

***Cerbydau***

Gall swyddog heddlu stopio cerbyd ar unrhyw adeg a gofyn am gael gweld trwydded yrru'r gyrrwr. Os oes gan yr heddlu reswm da dros gredu bod eich car yn cynnwys eiddo wedi'i ddwyn, cyffuriau neu arfau, gallant chwilio eich car hyd yn oed os nad ydych chi'n bresennol. Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'r heddlu adael hysbysiad yn dweud beth maent wedi'i wneud.

Os yw'r chwiliad yn achosi unrhyw ddifrod, gallwch ofyn i'r heddlu am iawndal ond dim ond os na wnaeth yr heddlu ddarganfod unrhyw beth i'ch cysylltu chi â throsedd.

***Eich hawl i gael cofnod***

Os cewch eich stopio a'ch chwilio, mae gennych hawl i gael derbynneb ac mae'n rhaid i'r swyddog gofnodi'r manylion canlynol oni bai, er enghraifft, eu bod yn cael eu galw i argyfwng. Gallwch gael copi o'r orsaf heddlu unrhyw dro o fewn 12 mis.

Mae'n **rhaid** i'r heddlu nodi:

• sut ydych yn disgrifio eich cefndir ethnig;
• pam y cawsoch eich stopio a'ch chwilio;
• pryd a lle y cawsoch eich stopio a'ch chwilio;
• beth oeddynt yn chwilio amdano ac unrhyw beth y daethant o hyd iddo;
• enwau a rhifau'r swyddogion a wnaeth eich chwilio.

Ni fydd yr heddlu yn gofyn i chi am eich enw, eich cyfeiriad a'ch dyddiad geni oni bai eu bod yn eich riportio am drosedd.

Gofynnir i chi hefyd am eich cefndir ethnig (o'r rhestr o gategorïau cyfrifiad cenedlaethol a welir yn Atodiad 1 isod). Does dim rhaid i chi ddweud os nad ydych yn dymuno, ond mae'r wybodaeth hon o gymorth i ddangos os yw'r heddlu yn stopio a chwilio unigolion dim ond oherwydd eu hil neu eu hethnigrwydd.

**Sut allaf gwyno?**

Fe ddylai'r heddlu eich trin yn deg a gyda pharch. Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg, mae gennych yr hawl i gwyno.

Fe allwch:

- ffonio **101,** rhif ffôn difrys yr Heddlu
- gysylltu â'ch gorsaf heddlu leol;
- gysylltu â'ch comisiynydd heddlu a throsedd lleol;

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**
**Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru**
**Glan-y-Don**
**Bae Colwyn**
**LL29 8AW**
**Gogledd Cymru**

- gysylltu â chanolfan Cyngor ar Bopeth;
- gysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; neu
- gyfreithiwr.

**Nodwch: Canllaw ar y gweithdrefnau stopio a chwilio yw hwn. Nid yw'n cynnwys pob rhan o'r gyfraith.**

*Atodiad 1*

**Categorïau'r Cyfrifiad Cenedlaethol**

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

- Indiaidd
- Bangladeshaidd
- Pacistanaidd
- Cefndir asiaidd arall

**Du neu Ddu Prydeinig**

- Caribïaidd
- Affricanaidd
- Cefndir du arall

**Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall**

- Tsieineaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall

**Cymysg**

- Caribïaidd Gwyn a Du
- Affricanaidd Gwyn a Du
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall

**Gwyn**

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Unrhyw gefndir gwyn arall